Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**Crynodeb o'r newidiadau allweddol i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2023/24**

## Pennod 1 Cyd-destun Sefydliadol

- *Adran 1.1:* Cynnwys cyfeiriadau at wahanol gyrff rheoleiddio ar wahân i'r ASA, megis Estyn ac OFSTED. Eglurhad o'r datganiad mewn perthynas â Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru.

## Pennod 2 Strwythur Pwyllgorau Academaidd

- *Adran 2:* Cynnwys cyfeiriad at yr Uwch Dîm Arwain a dileu cyfeiriad at y Tîm Cynllunio Academaidd a'r Tîm Arwain Gweithredol.

- *Adran 2.4.2:* Rhoi'r Bwrdd Cydraddoldebau a Llesiant i ben tra bod y strwythur yn cael ei ailystyried

- *Drwy gydol y bennod:* Newidiadau i derminoleg/teitlau swyddi a mân newidiadau i aelodaeth pwyllgorau.

## Pennod 3 Gwella Ansawdd

Mae'r bennod wedi'i diweddaru'n llawn i gynnwys:

- ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygiad proffesiynol staff academaidd a staff academaidd-gysylltiedig mewn perthynas â phrofiad academaidd;

- myfyrio ar sefydlu cymuned ymarfer a gwella ymhellach y diwylliant o gydweithio a chefnogi dysgu ac addysgu;

- gwreiddio blaenoriaethau gwella yn unol â ffocws adolygiadau gwella ansawdd yn y dyfodol;

- nifer o elfennau newydd allweddol o Fframwaith Dysgu ac Addysgu Nexus: y Fframwaith Dylunio Dysgu, y Fframwaith Arfer Cydweithredol; a Gwobrau Dysgu ac Addysgu Nexus.

## Pennod 4 Dylunio, Cymeradwyo, Dilysu, Monitro ac Adolygu Rhaglenni

Cafwyd diwygiadau sylweddol i'r bennod hon, yn bennaf mewn perthynas â'r adrannau canlynol:

- *Adran 4.2:* Eglurhad pellach o reoliadau Cymeradwyo Rhaglenni (Cam 1) ac ychwanegu adran ar gymeradwyo Microgymwysterau a chyrsiau byr heb gredyd

- *Adran 4.3:* Ehangu gwybodaeth ynghylch cam dylunio rhaglen.

- *Adran 4.8.4:* Diweddaru'r adran ar broses addasiadau mawr i adlewyrchu arfer cyfredol.

- *Adran 4.8.6:* Diweddaru'r rhestr o fân addasiadau i adlewyrchu'r rhestr yn Atodiad PV9.

- *Adran 4.8.10-4.8.15:* Diwygio'r rheoliadau ar gyfer Gohirio Rhaglenni Astudio neu eu Tynnu'n Ôl.

- *Adran 4.9.1-4.9.22:* Dileu'r broses Adolygu Rhaglenni Blynyddol ar gyfer rhaglenni PCYDDS, a'i disodli gan broses Monitro Academaidd.

- *Adran 4.9.23-4.9.25:* Diwygiadau i'r broses fonitro mewn Sefydliadau Partner Cydweithredol, gan gynnal elfennau o'r broses gyfredol ond gyda rhai diwygiadau i symleiddio'r ddogfennaeth sydd ei hangen.

**Pennod 5 Cynrychiolaeth, Ymgysylltiad a Chymorth Myfyrwyr**

- *Adran 5.2:* Diweddaru'r rhestr o strategaethau sy'n gysylltiedig â'r maes..

- *Adran 5.4:* Diweddaru'r adran i gynnwys cyfeiriad at annog cydweithio a chyd-greu myfyrwyr-staff.

- *Adran 5.8:* Diweddaru'r adran i gyfeirio at ymgysylltu â myfyrwyr, ceisio cyfraniadau myfyrwyr i brosesau sicrhau ansawdd allweddol mewn perthynas â'u rhaglenni astudio, ac at ddatblygiad polisi a strategaeth yn ymwneud â myfyrwyr, a mecanweithiau llais myfyrwyr/adborth.

**Pennod 6 Rheoliadau Graddau a Addysgir**

- *Adran 6.1.2:* Eglurhad pellach o ddiffiniadau ar gyfer Cwrs, Microgymwysterau a Dysgu Cyfunol.

- *Adran 6.3.2 (13):* Ychwanegu cyfnodau astudio arferol ac uchafswm ar gyfer y Meistr mewn Pensaernïaeth (MArch).

- *Adran 6.3.3:* Ychwanegu gofynion penodol ychwanegol ar gyfer yr MArch.

- *Adran 6.5.3.4 (3):* Eglurhad mewn perthynas â rheoliadau ar gyfer ailadrodd lefel astudio, neu'r rhan fwyaf o lefel astudio.

- *Adran 6.6.2:* Ychwanegu rheoliadau ar gyfer y MArch.

- *Adran 6.6.4.1:* Ychwanegu adran newydd ar raglenni MA heb Ran II (gan gynnwys MArch): Rheolau Dilyniant a Gwobrwyo.

- *Adran 6.6.7 (12):* Egluro rheoliadau dosbarthu graddau MArch.

- *Adran 6.7.2.2:* Ychwanegu adran ar Fyfyrwyr ar Raglenni Achrededig CPSRh/PSRB gydag oriau lleoliad gorfodol heb gredyd.

- *Adran 6.9:* Eglurhad gweithdrefnol i reoliadau'r Dyfarniad ar ôl Marwolaeth.

**Pennod 7 Asesu: Rhaglenni a Addysgir**

- *Adran 7.8.(4).iii*: Eglurhad ynghylch safoni.

**Pennod 8 Rheoliadau Graddau Ymchwil**

- Dim diwygiadau i Bennod 8.

**Pennod 9 Fframwaith Gweithdrefnol ar gyfer Darpariaeth Gydweithredol**

- *Adran 9.2.2:* Dileu'r cyfeiriad at ddarpariaeth oddi ar y campws, sydd bellach wedi'i leoli ym Mhennod 10.

- *Adran 9.3:* Egluro cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Arwain a/neu'r Grŵp Cymeradwyo Rhaglenni a Chleientiaid am wahanol agweddau ar gymeradwyo partneriaethau newydd a/neu raglenni partneriaeth newydd, ynghyd â mân newidiadau eraill.

- *Adran 9.10.4*: Diwygiad i adlewyrchu cyfrifoldebau ychwanegol y Swyddfa Partneriaethau Cydweithredol (CPO) wrth reoli prosesau ail-ddilysu ar gyfer partneriaid.

- *Adrannau 9.11.1 and 9.11.2*: Diwygiadau i adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Pennod 4 (dileu'r broses Adolygu Rhaglenni Blynyddol, wedi'i disodli gan broses Monitro Academaidd).

- *Adran 9.12.3*: Diwygio'r broses interim adolygu partneriaid, fel mai dim ond os nodir risgiau neu lle mae trefniadau cymhleth (fel dyfarniadau deuol) y cynhelir y broses honno.

- *Adran 9.16.2:* Ychwanegiad i nodi bod myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni i'w terfynu yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau addysgu allan.

**Pennod 10 Cyrsiau Byr, y Fframwaith Arfer Proffesiynol, Partneriaid Cyfraniadol, ac Achredu**

- *Newid teitl Pennod i:* Microgymwysterau, Cyrsiau Byr, y Fframwaith Arfer Proffesiynol, Partneriaid Cyfraniadol, Darpariaeth mewn lleoliad allanol ac Achredu.

- *Adran 10.2:* Gwahaniaethu rhwng microgymwysterau a chyrsiau byr heb gredyd ac ychwanegu darpariaeth a gyflwynir ar safle allanol.

- *Adran 10.5*: Adran ar ficrogymwysterau wedi'i diweddaru'n llawn, gan adlewyrchu'r canllawiau sector diweddaraf.

- *Adran 10.6*: Adran newydd ar gyrsiau byr heb gredyd.

- *Adran 10.9*: Adran newydd ar gyflwyno darpariaeth PCYDDS mewn lleoliadau allanol.

**Pennod 11 Gweithio gydag Eraill**

- *Adran 11.1:* Ychwanegu croesgyfeiriad at ganllawiau arfer gorau a ddefnyddir i lywio'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r bennod.

- *Adran 11.4:* Ehangu'r adran ar waith y Bwrdd Symudedd Rhyngwladol.

- *Adran 11.7:* Ychwanegu cyfeiriad at ofynion y Fframwaith Prentisiaethau (Cymru) neu'r Safon (Saesneg) ac asesiad diweddbwynt mewn perthynas â Phrentisiaethau.

**Pennod 12 Polisïau Myfyrwyr**

- Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i Bennod 12. Fodd bynnag, mae nifer o bolisïau a restrir ym Mhennod 12 wedi'u diweddaru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24.